PAM DEWIS DYFARNIAD LEFEL 2 MEWN

# Cymraeg Craidd Ychwanegol?

Ydych chi eisiau gallu deall a defnyddio'r Gymraeg, iaith Cymru, yn hyderus a digymell? Ydych chi eisiau datblygu sgìl gwerthfawr ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eich cymunedau? Ydych chi eisiau bod yn rhan o nod y llywodraeth a bod yn un o'r miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? Dyma gymhwyster fydd yn gallu meithrin eich chwilfrydedd, datblygu eich sgiliau a strategaethau dysgu iaith ac agor drysau i astudiaethau pellach a swyddi yn y dyfodol.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

**Byddwch chi'n astudio tair thema eang sef cynefin, hunaniaeth a diwylliant**.

### UNED 1 (Siarad a Gwrando – Cyfathrebu a Rhyngweithio)

Yn yr uned hon byddwch yn adeiladu ar y sgiliau rydych chi wedi eu dysgu yn barod drwy eich cwrs TGAU gan gyfathrebu a rhyngweithio gydag eraill. Byddwch yn datblygu eich hyder yn y Gymraeg drwy:

- ddefnyddio amrywiaeth o batrymau iaith ac amserau gwahanol y ferf
- cyfleu gwybodaeth
- mynegi a chyfiawnhau barn
- gofyn ac ymateb i gwestiynau

### UNED 2 (Darllen ac Ysgrifennu – Cymraeg a Fi)

Yn yr uned hon byddwch yn adeiladu ar y sgiliau rydych chi wedi eu dysgu yn barod drwy eich cwrs TGAU gan ddarllen ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig. Byddwch yn cael eich dysgu i:

- fod yn fwy annibynnol, creadigol a dychmygus wrth ddarllen ac ysgrifennu
- ysgrifennu amrywiaeth o ffurfiau ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

ARHOLIAD - Bydd un arholiad drwy fideo-gynedledda:

Uned 1: Adran A - Trafodaeth grŵp

Trafodaeth 6-8 munud ar gyfer pâr; 8-10 munud ar gyfer grŵp o dri. CBAC fydd yn darparu'r sbardun i chi. Bydd y sbardunau yn seiliedig ar y tair thema eang.

Adran B - Trafodaeth unigol

Trafodaeth unigol 4-5 munud gyda'r arholwr ar bwnc o ddiddordeb personol i chi. Rhaid i chi ddewis un o'r tair thema eang i fod yn sail i'r drafodaeth a bydd rhaid i'r testun fod yn un Cymreig.

50 marc; 50% o'r cymhwyster.

DEWCH I WYBOD MWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!

ASESIAD DI-ARHOLIAD – Bydd un asesiad di-arholiad (dwy dasg):

Uned 2:

Dwy dasg ysgrifenedig yn seiliedig ar y teitl **Cymraeg a fi** ar bwnc o ddiddordeb personol i chi.

Tasg 1 – Ymateb beirniadol i ymchwil a dadansoddi

Tasg 2 – Ymateb creadigol a dychmygus

Tasg 1 & Tasg 2 = Rhwng 800 a 1000 o eiriau fel cyfanswm.

40 marc; 50% o'r cymhwyster

**Bydd Uned 1 ac Uned 2 yn cael eu graddio gyda gradd Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth.**

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

- **Sgiliau Siarad a Gwrando**
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau siarad a gwrando er mwyn gallu cyfathrebu, rhyngweithio, mynegi a chyfiawnhau barn a gofyn ac ymateb yn effeithiol i gwestiynau.
- **Sgiliau Darllen ac Ysgrifennu**
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu er mwyn gallu deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig gan gynnwys ymateb beirniadol i ymchwil a dadansoddi ac ymateb creadigol a dychmygus.
- Bydd disgwyl i chi ddangos datblygiad o'r hyn a ddysgoch yn y TGAU Cymraeg Craidd ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy ddod o hyd i wybodaeth yn annibynnol ac ysgrifennu'n estynedig a dealladwy.

## GYRFAOEDD YM MAES CYMRAEG CRAIDD YCHWANEGOL

### DYFARNIAD LEFEL 2 MEWN CYMRAEG CRAIDD YCHWANEGOL

Mae swyddi sy'n cael eu hysbysebu yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymwysterau TGAU Cymraeg Craidd a Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwnaegol a bod gan yr ymgeiswyr eraill sy'n ceisio am y swydd ddim y cymwysterau hyn, yna rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ymhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau ac adloniant, chwaraeon, y gyfraith, marchnata a llawer mwy. Gallwch hyd yn oed gael swydd ym Mhatagonia yn ne America os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg!

